# Table 5.2 Parth gwaith

| **Galluoedd** – y rhyddidau a chyfleoedd canolog a gwerthfawr | **Deilliannau**[1] – y dyfodol rydym ei eisiau | **Dangosyddion**[2] – sut fyddwn ni'n mesur cynnydd | **Pynciau** |
|---|---|---|---|
| I weithio mewn amodau cyfiawn a ffafriol, i gael cydnabod gwerth eich gwaith, hyd yn oed os nad yw am dâl, i beidio cael eich atal rhag gweithio, ac i fod yn rhydd o gaethiwed, llafur gorfodol a mathau eraill o gamfanteisio.<br>Dylai pob person allu:<br>• Cael swydd gyflogedig briodol, gyda chefnogaeth os oes angen<br>• Gwneud rhywbeth sy'n ddefnyddiol a chael cydnabyddiaeth i werth eu gwaith hyd yn oed os yw'n ddi-dâl<br>• Cael gorffwys a hamdden, yn cynnwys gwyliau, ac egwyl o gyfrifoldebau gofal<br>• Gweithio mewn amodau cyfiawn a ffafriol, yn cynnwys iechyd a diogelwch, oriau teg, a rhyddid rhag aflonyddu a gwahaniaethu<br>• Beidio cael ei orfodi i weithio mewn galwedigaeth benodol neu heb dâl<br>• Beidio cael ei atal rhag gweithio mewn galwedigaeth benodol heb reswm digonol<br>• Fod yn rhydd o gaethiwed, llafur gorfodol a mathau eraill o gamfanteisio | • Mae hawliau pobl i waith addas ac i fod yn rhydd o wahaniaethu yn cael ei barchu, amddiffyn a chyflawni<br>• Mae pobl yn rhydd o wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth mewn cyflogaeth<br>• Mae gan bawb yr hawl i ddewis proffesiwn yn rhydd<br>• Ni fydd neb yn cael ei atal rhag gweithio mewn galwedigaeth benodol heb reswm digonol<br>• Mae pobl yn cael eu talu'r un faint am wneud yr un gwaith, neu waith tebyg<br>• Mae amgylcheddau gwaith mor ddiogel ac iach â phosibl<br>• Does dim lle i lafur gorfodol, caethwasiaeth na mathau eraill o gamfanteisio | Cyflogaeth | • Cyflogaeth, yn cynnwys hunangyflogaeth, gwaith rhan amser, cyfnod penodol, dros dro ac achlysurol, contractau dim oriau a gweithio hyblyg<br>• Diweithdra a gweithgaredd economaidd<br>• Triniaeth annheg, bwlio ac aflonyddu yn y gweithle |
| | | Enillion | • Bylchau cyflog mewn enillion fesul awr canolrifol<br>• Cyflog isel<br>• Gwahaniaethau rhyw yn ôl diwydiant, galwedigaeth, rhanbarth a sector |
| | | Gwahanu galwedigaethol | • Gwahanu fertigol a llorweddol, yn cynnwys uwch reolwyr ac ar fyrddau<br>• Gwahanu o fewn prentisiaethau |
| | | Llafur gorfodol a masnachu | • Oedolion a fasnachir ar gyfer caethwasanaeth domestig a mathau eraill o gamfanteisio<br>• Dioddefwyr masnachu a gyfeiriwyd at y Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol |

1 Adran 12(1)(b), Deddf Cydraddoldeb 2006
2 Adran 12(1)(c), Deddf Cydraddoldeb 2006